

## **Gwybodaeth am Liffit Arbennig y New Theatre**

Bellach mae gan y New Theatre liffit i theatrgarwyr anabl i gyrraedd rhannau o'r theatr na fyddai modd iddynt wneud hynny gynt heb anhawster.

### **I bwy mae'r liffit?**

Mae'r liffit i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn sydd wedi prynu tocynnau ym Mocs G, Bocs H neu ar res M y Cylch. Mae croeso i'r rhai sy'n cael trafferth â'r grisiau ei ddefnyddio hefyd. Gofynnwn i bobl all ddringo'r grisiau wneud hynny fel na fydd oedi ar ddechrau'r perfformiad. Os ydych yn bwriadu defnyddio'r liffit, cyrhaeddwch yn gynnar gan y gallai fod ciw bach.

### **Sut ydych chi'n defnyddio'r liffit?**

Defnyddiwch ddrws B yn y bar a dywedwch wrth yr aelod o staff sy'n sicrhau bod gan bawb docyn fod angen ichi ei ddefnyddio. Yna daw aelod arall o staff gyda chi i'r liffit, a mynd â chi i'r lefel gywir. Bydd yn gofyn a fydd angen i chi ei ddefnyddio eto ar yr egwyl. Dim ond ar ôl diwedd y sioe y bydd staff yn gweithredu'r liffit.

### **Alla i fynd i lefelau uwch yn fy nghadair olwyn?**

Gallwch, bydd modd mynd i ardal bar y Cylch yn eich cadair olwyn yn ystod yr egwyl. Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio'r liffit eto. Trafodwch hyn â gweithredwr y liffit pan fyddwch yn cyrraedd. Yn anffodus, rhaid defnyddio'r grisiau i gyrraedd bar y Cylch Uchaf.

### **Oes tŷ bach i bobl anabl ar y lloriau uwch?**

Er ein bod yn bwriadu cynnig tŷ bach ar y lloriau uchel yn y dyfodol, dim ond ym mar y Seddi isaf y mae rhai i bobl anabl. Gwasgwch y botwm galw wrth y liffit, a daw aelod o staff atoch os bydd angen i chi ddefnyddio'r tŷ bach yn ystod y sioe.

### **Beth os bydd y larwm argyfwng yn canu?**

Os bydd angen i bawb adael yr adeilad dim ond defnyddwyr cadeiriau olwyn all ddefnyddio'r liffit. I sicrhau y bydd pawb yn gadael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel, gofynnir i bawb arall ddefnyddio'r grisiau. Felly ni ddylai pobl na allent ddefnyddio'r grisiau mewn argyfwng brynu tocynnau i'r Cylch, y Cylch Uchaf na'r Bocsys. Mae ystod lawn o brisiau ar gael ar y llawr gwaelod.

### **Ble mae'r llefydd newydd i gadeiriau olwyn?**

Rydym wedi creu 3 lle i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae un yn rhes M y Cylch, ac un yr un ym Mocsys G a H. Bydd cadair olwyn yn y Bocs yn lleihau faint o le sydd ar gael i bobl eraill yno. Gan gynnwys y llefydd presennol i gadeiriau olwyn yn y Seddi isaf, mae gennym bellach le i 9 defnyddiwr cadair olwyn ym mhob perfformiad. Gallwch gadw lle i gadair olwyn drwy'r Swyddfa Docynnau 029 20867 8889 (am resymau technegol ni allwch eu prynu ar-lein).

### **Pa fath o gadeiriau olwyn all ddefnyddio'r liffit?**

Gall cadeiriau olwyn gyda phŵer neu rai di-bŵer nad ydynt yn fwy na 840mm o led a 1150mm o hyd ddefnyddio'r liffit. Mae gennym gadeiriau olwyn di-bŵer a gallwch eu benthyg i ddefnyddio'r liffit os yw'ch cadair chi'n rhy fawr. Gallwch eu trefnu ymlaen lle drwy gysylltu â ni (gweler isod). Os na allwch ddefnyddio cadair olwyn ddi-bŵer, yn anffodus bydd yn rhaid i chi ddefnyddio un o'r llefydd Y yn y Seddi isaf, sydd fwyaf addas i gadeiriau olwyn mwy.

### **Alla i ddod a rhoi cynnig ar y liffit ymlaen llaw i weld a yw'n addas i mi?**

Gallwch. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad.

Ffôn: 029 2087 8790 E-bost: [ntmailings@caerdydd.gov.uk](mailto:ntmailings@caerdydd.gov.uk)  
Cyfeiriad: New Theatre, Heol Parc, CAERDYDD CF10 3LN